

Adroddiad chwarterol o drafodion a reoleiddir (benthyciadau) a wneir i blaid gwleidyddol: datganiad adroddiad o 'ddim'

Nodiadau esboniadol ar gwblhau'r ffurflen RP10QNb

Cyn llenwi'r ffurflen hon, dylai pob plaid ddarllen ein [canllaw rhoddion a benthyciadau](#) er mwyn cael arweiniad cynhwysfawr ar y rheolaethau ar drafodion sy'n gymwys i bleidiau gwleidyddol.

Mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol cofrestredig gyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau i'r Comisiwn Etholiadol ar ddiwedd pob chwarter calendr.

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), defnyddir 'buddiant' i gyfeirio at roddion a benthyciadau sydd, gyda'i gilydd, dros £500. Mae'n rhaid i bleidiau gyfansymio unrhyw roddion a benthyciadau a dderbynnir neu a ymgwymerir gan yr un ffynhonnell mewn flwyddyn galendr ac adrodd am unrhyw fuddiannau sy'n bodloni'r trothwy adrodd.

Dylai pleidiau gyflwyno datganiad adroddiad o 'ddim' os nad ydynt wedi ymgymryd ag unrhyw un o'r canlynol yn ystod y chwarter calendr perthnasol:

- unrhyw drafodion newydd (gan gynnwys buddiannau wedi'u cyfansymio) sy'n werth mwy na £7,500 yr ymgwymerwyd â hwy gan sefydliad canolog plaid
- unrhyw drafodion (gan gynnwys buddiannau wedi'u cyfansymio) o fwy na £1,500 yr ymgwymerwyd â hwy gan unedau cyfrifyddu plaid
- nid oes newidiadau wedi'u gwneud i drafodyn a reoleiddir sy'n bodoli'n barod
- ni ymgwymerwyd ag unrhyw drafodion gyda chyfranogwr nas caniateir neu sy'n anawdurdodedig

Yn ogystal, yn Chwarter 4, mae'n ofynnol ar bleidiau i gynnwys manylion unrhyw fuddiannau cyfansymiol o fwy na £7,500 a wnaed i adrannau gwahanol o'r plaid (a elwir hefyd yn 'rhoddion adran 62(12)' a 'benthyciadau adran 71M(12)'). **Dim ond yn yr adroddiadau rhoddion a benthyciadau ar gyfer Chwarter 4 y mae angen adrodd am y buddiannau hyn.**

Rhaid cyflwyno'r adroddiad cyn pen 30 diwrnod o ddiwedd y chwarter calendr (gweler isod).

Mae pob nodyn yn cyfateb i adran wedi'i rhifo ar ffurflen RP10QNb.

1 Manylion plaid gofrestredig

Nodwch enw cofrestredig y blaid, a chyfeirnod y blaid.

At hynny, nodwch y cyfnod adrodd chwarterol perthnasol a'r flwyddyn, e.e.

- Chwarter 1 (Ionawr–Mawrth)
- Chwarter 2 (Ebrill-Mehefin)
- Chwarter 3 (Gorffennaf-Medi)
- Chwarter 4 (Hydref-Rhagfyr).

2 Datganiad adroddiad o 'ddim'

3 Datganiad a llofnod

Rhaid i'r datganiad hwn gael ei ddiwygio fel y bo'n berthnasol a'i lofnodi gan yr unigolyn a gofrestrwyd yn drysorydd y blaid.

Pwysig: Mae'n drosedd i drysorydd wneud datganiad anwir, a hynny'n fwriadol neu'n ddi-hid, neu fethu â chyflwyno adroddiad cyn pen 30 diwrnod o ddiwedd cyfnod adrodd.

Dylid dychwelyd ffurflen RP10QNb i:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928

Ffacs: 020 7271 0505

E-bost: pef@electoralcommission.org.uk

Y We: comisiwnetholiadol.org.uk